

## Hysbysiad Preifatrwydd Cleifion a Datganiad Prosesu Teg PICANet

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut rydyn ni'n defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei chasglu amdano chi (plentyn/person ifanc) neu'r plentyn rydych chi'n gofalu amdano

*Pa ddata sy'n cael ei gasglu?*

Mae PICANet yn casglu data am bob plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gyfeirio neu ei dderbyn i Uned Gofal Dwys Pediatrig (PICU) yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r data'n cael ei anfon drwy gyfrwng rhaglen we ddiogel iawn yn rheolaidd gan bob PICU neu dîm cludiant arbenigol. Mae data'n cael ei gasglu ynghylch pob unigolyn drwy gydol y cyfnod y mae'n aros yn y PICU a data hefyd am beth ddigwyddodd i'r unigolyn os cafodd gludiant gofal critigol (sy'n golygu bod tîm arbenigol o ddoctoriaid a nyrsys wedi teithio mewn ambiwlans i'w godi i fynd i PICU). Mae gan PICANet ganiatâd hefyd i gasglu manylion personol sy'n adnabod plant neu bobl ifanc sy'n cael eu derbyn neu eu cyfeirio i gael Gofal Dwys Pediatrig heb gymryd cydsyniad (ysgrifenedig) pendant gan y plant neu eu rhieni. Cafodd y caniatâd hwn ei roi gan Grŵp Cyngor Cyfrinachedd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd (HRA). Mae crynodeb o gofnod PICANet ar gael ar y gofrestr gymeradwyaethau ar [wefan yr HRA](#) (cafodd PICANet ei gymeradwyo gyntaf yn 2002 a'i gyfeirnod yw: PIAG 4-07(c)/2002). Mae'r manylion personol yn cynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif adnabod cofnod iechyd (e.e. rhif GIG)\*.

\* Dydyn ni ddim yn cael enw, cyfeiriad a rhif adnabod iechyd yn achos Gweriniaeth Iwerddon a Latfia

*At beth mae'r data'n cael ei ddefnyddio?*

Rydyn ni'n casglu'r data hwn at ddibenion awdit clinigol, ymchwilio a gwerthuso a chynllunio gwasanaethau, a hynny er mwyn gwella'r gofal i blant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i PICU. Bob blwyddyn rydyn ni'n llunio adroddiad ar weithgareddau a chanlyniadau gofal dwys pediatrig yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Fydd dim gwybodaeth bersonol byth yn cael ei chyhoeddi mewn unrhyw adroddiad neu gyhoeddiad.

*Ble mae'r data'n cael ei gadw, ac am ba hyd?*

Mae'r cyfan o'r data'n cael ei gadw ym Mhrifysgol Leeds a hynny mewn amgylchedd diogel iawn. Gan mai adran awdit ydyn ni, rydyn ni'n cadw'r data'n barhaol er mwyn cael cymharu beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Rydyn ni'n tynnu'r manylion adnabod o'n cronfa ddata pan fydd unigolyn yn fwy na 18 oed a heb fod mewn PICU dros y pum mlynedd diwethaf.

*Rhannu data gyda sefydliadau eraill*

Gall PICANet rannu data sy'n cael ei gadw yn eu cronfa ddata gydag ymchwilwyr, adrannau awdit eraill neu ddarparwyr gofal iechyd eraill er mwyn gwella gofal i gleifion. Fyddwn ni DDIM yn rhannu manylion adnabod personol (fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni neu rif GIG) gyda neb arall oni bai bod trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogel wedi'u gwneud i gadw'ch manylion personol yn ddiogel. Yn achlysurol iawn, gall data personol gael ei brosesu gan drydydd parti awdurdodedig fel NHS Digital, ond unwaith eto, dim ond ar sail y caniatâd angenrheidiol gan y rheoleiddwyr. Mae ganddyn nhw lefelau diogelwch uchel iawn a byddan nhw'n cadw'r data'n ddiogel iawn.

Mae gennyn ni broses drylwyr iawn i asesu rhagoriaeth ceisiadau am ddata a gwybodaeth ac rydyn ni'n cyhoeddi manylion y ceisiadau hyn bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol. Mae data sy'n cael ei gasglu mewn unedau gofal dwys pediatrig a thimau cludiant arbenigol yn y GIG yn Lloegr yn cael ei reoli gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) ac mae pob cais yn mynd drwy eu Grŵp Ceisiadau Gweld Data nhw. Mae rhagor o fanylion am broses yr HQIP ar gyfer gwneud cais am ddata ar gael yn: <http://www.hqip.org.uk/national-programmes/a-z-of-nca/audits-and-data-gov-uk/>.

*Beth os nad ydych chi'n amcangyfrif i wybodaeth amdano i neu am y plentyn dan fy ngofal i gael ei gynnwys?*

Os nad ydych chi am i wybodaeth a fyddai'n eich adnabod chi neu'r plentyn rydych chi'n gofalu amdano gael ei chynnwys yn PICANet, dywedwch wrth y nyrs neu'r doctor yn yr uned gofal dwys pediatrig. Fel arall, cysylltwch â PICANet dros y ffôn neu'r e-bost (manylion isod) a byddwn yn sicrhau bod eich manylion adnabod personol yn cael eu tynnu o'r gronfa ddata. Rydych yn rhydd i ofyn am hyn unrhyw bryd ac ni fydd unrhyw benderfyniad i ofyn am dynnu'ch manylion adnabod chi neu fanylion adnabod eich plentyn yn newid y gofal a gewch chi yn yr ysbyty hwn, neu mewn unrhyw ysbyty arall. Mae gennych chi hawl hefyd i wneud cais am weld a chywiro gwybodaeth amdano chi neu'r plentyn rydych chi'n gofalu amdano.

**Richard Feltbower**  
**Uwch-ddarlithydd mewn Epidemioleg**  
[Leeds Institute of Cardiovascular and Metabolic Medicine](#)  
School of Medicine  
University of Leeds  
Clarendon Way  
LS2 9JT, UK  
Ffôn: +44 (0)113 343 4841

**Elizabeth S Draper**  
**Athro Epidemioleg Amenedigol a Phediatrig**  
[Department of Health Sciences](#)  
[College of Medicine, Biological Sciences and Psychology](#)  
University of Leicester  
George Davies Centre  
University Road, Leicester  
LE1 7RH, UK

**Ebost:** picanet@leeds.ac.uk

*Pwy sy'n gyfrifol am y data?*

Y **Rheolwr Data** o ran data sy'n cael ei gasglu mewn unedau gofal dwys pediatrig a thimau cludiant yn y GIG yn Lloegr yw:

**Healthcare Quality Improvement Partnership**

6th Floor, 45 Moorfields,  
London,  
EC2Y 9AE  
(Elusen, Rhif Cofrestru 1127049)  
Swyddog Diogelu Data: Sasha Hewitt (Ebost: data.protection@hqip.org.uk)  
Rhif cofrestru'r rheolwr data a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Z1780946

Y **Rheolwr Data** o ran data sy'n cael ei gasglu mewn unedau gofal dwys pediatrig preifat ac unedau a thimau cludiant yn y GIG yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yw:

**University of Leeds**

Leeds  
LS2 9JT  
Swyddog Diogelu Data: David Wardle (Ffôn: +44(0)113 343 4452, Ebost: d.wardle@adm.leeds.ac.uk)  
Rhif cofrestru'r rheolwr data a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Z553814X

*Pwy sy'n prosesu'r data?*

Y **Proseswyr Data** o ran y data i gyd yw:

**University of Leeds**

Leeds  
LS2 9JT  
Swyddog Diogelu Data: David Wardle  
Ffôn: +44(0)113 343 4452  
Ebost: [d.wardle@adm.leeds.ac.uk](mailto:d.wardle@adm.leeds.ac.uk)

**University of Leicester**

University Road  
Leicester, LE1 7RH  
Swyddog Diogelu Data: Parmjit Gill  
Ffôn: +44(0)116 229 7945  
Ebost: [pg170@le.ac.uk](mailto:pg170@le.ac.uk)

*Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data?*

Mae angen y data er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd a hynny er mwyn sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd. \*

*Beth os oes gen i bryderon am y modd mae'r data personol yn cael ei brosesu?*

Os hoffech chi godi cwyn am y modd rydyn ni wedi trin eich data personol chi neu ddata personol eich plentyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data (uchod) a fydd yn ymchwilio i'r mater. Os na fyddwch yn fodlon ar ein hymateb neu os byddwch yn credu ein bod yn prosesu'r data mewn modd nad yw'n gyfreithlon, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). <https://ico.org.uk/>

**\* Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data:**

Erthygl 6 (1) (e) mae angen y gwaith prosesu er mwyn cyflawni tasg sy'n cael ei chynnal er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr.

Erthygl 9 (2) (i) mae angen y gwaith prosesu am resymau'r budd cyhoeddus ym maes iechyd y cyhoedd, megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu gyfraith yr Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddidau'r testun data, ac yn benodol cyfrinachedd proffesiynol.